**Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd**

**04 Ebrill 2019, 10:00 – 12:00**

**Y Tŷ Coch, Merthyr Tudful**

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Tasglu**
Y Dirprwy Weinidog ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (Cadeirydd)
Karen Phillips, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
Andrew Diplock, Entrepreneur, Angel Buddsoddi a Chynghorydd
Y Cyngh Andrew Morgan, Arweinydd Rhondda Cynon Taf
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Dr Chris Jones, Cadeirydd, AaGIC
Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru.
Dawn Bowden AC, Merthyr Tudful a Rhymni

**Aelodau Bwrdd y Rhaglen**
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio (SRO)
David Rosser, Chwaraeon, ESNR

**Tîm Tasglu'r Cymoedd**
Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd (Siaradwr)
Phil Lewis, Cangen Tasglu Blaenau'r Cymoedd (Siaradwr)
Lisa Rimmer – Uwch-reolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd
Kelly Clement – Rheolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd

**Ymddiheuriadau**
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth Prifysgol Met Caerdydd
Kellie Beirne – Cyfarwyddwr Rhaglen, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, y Gweinidog Tai ac Adfywio Blaenorol
Fiona Jones, yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Siaradwyr**
Derek James, Rhondda Cynon Taf
Tony Meacham, Rhaglen Trafnidiaeth Ymatebol Integredig

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.**

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (LW) a chroesawyd Dawn Bowden i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o'r tasglu gweinidogol.

**Eitem 2: Diweddariad/cwestiynau ar y cynnydd a wnaed. Trafodaethau ar themâu sy'n dod i'r amlwg**

1. Rhoddodd LW y wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd roedd pethau wedi datblygu ers y cyfarfod diwethaf. Cynhaliwyd cyfarfodydd â Chastell-nedd Port-Talbot, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr a thrafodwyd arfer gorau. Unwaith y bydd

cyfarfodydd wedi'u cynnal â phob arweinydd awdurdod lleol, bydd LW yn ystyried beth ddylai'r prif themâu fod ar gyfer y tasglu a'u rhannu â'r tasglu.

2. Byddai'r canolfannau yn parhau i fod yn adnodd cynllunio strategol ond nid yn unig ffocws gwariant o gronfa'r Tasglu'r Cymoedd.
3. Ymysg y themâu posibl sy'n codi o drafodaethau presennol roedd trafnidiaeth, yr economi sylfaenol a thai gwag. Eglurodd y Dirprwy Weinidog ei fod hefyd yn ystyried prosiectau bach eraill fel y prosiect Cyn-fyfyrwyr y soniwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y tasglu.
4. Yn ddiweddar, roedd LW wedi cyhoeddi £1.5m ar gyfer cronfa arbrofol economi sylfaenol y byddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais amdano a hoffai ddyrannu £1.5m ychwanegol o gronfa tasglu'r Cymoedd fel arian cyfatebol (gan edrych yn benodol ar brosiectau yn y Cymoedd).
5. Roedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd yn gweithio gyda thîm tasglu'r Cymoedd ar sefydlu Cronfa Her (£3-5m) sy'n canolbwyntio ar yr economi sylfaenol.
6. Rhoddodd LW y wybodaeth ddiweddaraf am fenter economi sylfaenol Preston Plus yr oedd y tîm caffael yn ei harwain. Roedd y ffocws ar gaffael ond mae meysydd eraill y dylid ystyried eu cynnwys. **CAM GWEITHREDU – dosbarthu adroddiad drafft o'r Ganolfan Astudiaethau Economaidd Lleol.**
7. Eglurodd LW y prosiect Cyn-fyfyrwyr yr oedd yn bwriadu ei dreialu yn y Cymoedd a fyddai'n trefnu gweithgareddau mentora a phrofiad gwaith. Y bwriad oedd cynnig cymorth i bob ysgol uwchradd sefydlu cymdeithas cyn-fyfyrwyr. Byddai gweithgor bach yn cael ei sefydlu er mwyn edrych ar sut y gellid gwneud y syniad hwn yn gynaliadwy. **CAM GWEITHREDU – Aelodau'r tasglu i gadarnhau a fyddent yn hoffi bod yn rhan o'r gwaith hwn.**
8. Rhoddodd Karen Phillips (KP) enghraifft o ddysgwyr yn dychwelyd i'r coleg a pha mor bwysig y gallai myfyrwyr sydd newydd adael y coleg fod. Roedd Coleg y Cymoedd bellach yn ei ail flwyddyn o ddatblygu cyn-fyfyrwyr fel adnodd. **CAM GWEITHREDU: Cytunodd KP i ofyn i'r person sy'n arwain y gwaith ar Gyn-fyfyrwyr yng Ngholeg y Cymoedd ymuno â'r gweithlu.**
9. Ychwanegodd Chris Jones (CJ) ei bod yr un mor bwysig hyrwyddo uchelgais mewn addysg uwch a chysylltu hyn â'r gwaith oedd yn mynd rhagddo mewn ysgolion a cholegau.
10. Rhoddodd Phil Lewis (PL) y wybodaeth ddiweddaraf am Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Roedd 9 safle porth wedi'u nodi a gwahoddwyd 11 ohonynt i wneud cais am y cyllid cyfalaf o £7m a ddyrannwyd er mwyn cefnogi hyn. Yr her nawr oedd sicrhau bod hyn yn gynaliadwy ac roedd LW yn awyddus i archwilio a allai hyn fod yn rhan annatod o weledigaeth y dinas-ranbarth dinesig.
11. Tynnodd Andrew Morgan (AM) sylw at bwysigrwydd rôl y parcmyn arfaethedig a'r angen i feithrin cysylltiadau agos â Croeso Cymru. Nododd CJ fod Sain Ffagan wedi newid er gwell ac y byddai'n ddefnyddiol edrych ar ei lwyddiannau. **CAM GWEITHREDU – cytunodd PL i wneud gwaith dilynol.**
12. Cadarnhaodd LW y byddai aelodaeth y tasglu yn cael ei hadolygu ar ôl cytuno ar y themâu terfynol. Yna, gallai aelodau'r tasglu gytuno i arwain ar gamau gweithredu gwahanol yn y Cynllun Cyflawni.

**Eitem 3: Rhaglen Trafnidiaeth Ymatebol Integredig**

13. Cyflwynodd Tony Meacham (TM) y gwaith a wnaed o dan y Rhaglen Trafnidiaeth Ymatebol Integredig sy'n edrych ar wasanaethau bws ledled Cymru. Lluniwyd achos amlinellol ac roedd tair prif thema.
    - Rhwydwaith Bws Cenedlaethol
    - Dull trafnidiaeth integredig – bws i drên, tocynnau

- Galw am drafnidiaeth ymatebol (trafnidiaeth ymatebol integredig bellach) – gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.

14. Y cynllun ar gyfer y rhaglen oedd darparu cerbydau bach (bysiau mini 16 sedd) sy'n rhatach i'w gweithredu na bysiau arferol. Yr her oedd sicrhau bod cerbydau yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl drwy amrywiaeth o ddibenion yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer gweithwyr cynnar, hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno, apwyntiadau iechyd, defnydd cymdeithasol, casglu plant o'r ysgol, gweithwyr hwyr ac ati.
15. Roedd TM wedi bod yn gweithio gyda'r Academi Meddalwedd Genedlaethol i ddatblygu meddalwedd gefnogol ac mae Ap wedi cael ei ddatblygu. Roedd trefniadau hefyd yn cael eu gwneud ar gyfer mynediad i ganolfannau galwadau ar gyfer y sawl nad oeddent yn gallu defnyddio'r Ap.
16. Byddai Awdurdodau Lleol yn penderfynu pa wasanaethau y dylent eu darparu yn eu hardaloedd a byddent yn gyfrifol am y gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer y treialon. Y syniad presennol oedd y byddai pedwar treial byw (yn cynnwys un yn y Cymoedd – yn ardal Blaenau Gwent o bosibl).
17. Yn ystod y drafodaeth, tynnodd AM sylw at brofiad RhCT o faterion yn ymwneud â darbwyllo'r gwasanaeth ambiwlans i gytuno i ddefnyddio cynllun tebyg. Creodd RhCT wasanaeth oedd yn fwy ymatebol na'r un oedd ar gael ar y pryd ym marn yr awdurdod, ond er gwaethaf ei lwyddiant, daeth y cynllun i ben ar ddiwedd ei gyfnod cyllido o ddwy flynedd. Byddai angen i unrhyw werthusiad ystyried p'un a fyddai fersiwn â chymhorthdal o wasanaeth masnachol presennol yn arwain at ganlyniad mwy costeffeithiol. Cafodd AM sicrwydd fod cydweithwyr yn RhCT wedi bod yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y fenter ddiweddaraf hon
18. Gofynnodd David Rosser (DR) a oedd asesiad wedi cael ei gynnal ar yr effaith negyddol bosibl ar gwmnïau tacsi. Dywedodd TM y byddai'r gwasanaeth yn lled-reolaidd ac y byddai'n wasanaeth paralel ac na fyddai'n cystadlu'n uniongyrchol â darparwyr tacsi.
19. Soniodd Dawn Bowden (DB) mai un o'r prif broblemau yw sicrhau y gall pobl gyrraedd eu gwaith. Er enghraifft, ym Merthyr, ni all pobl gyrraedd eu gwaith ar oriau afreolaidd e.e. mae'r gwasanaeth bws ym Merthyr yn dod i ben am 5:30pm.
20. Soniodd Maureen Howell (MH) am gynllun y mae Fiona Jones a DWP yn ei ddatblygu gyda thîm cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru. **CAM GWEITHREDU – cytunodd MH i ddosbarthu mwy o wybodaeth am hyn.**
21. Tynnodd CJ sylw at y ffaith bod mynediad at wasanaeth bws wedi bod yn thema gyson yn ystod sesiynau ymgysylltu'r Tasglu ac y byddai'n bwysig nodi ein bod wedi clywed yr hyn oedd ei angen a bod y Tasglu wedi ymateb.

**Eitem 4: Cartrefi Gwag**

22. Cyflwynodd AM y papur ar gartrefi gwag. Y ffocws yn RhCT oedd helpu pobl i fod yn berchen ar gartrefi, nid buddsoddiad i landlordiaid preifat i'w osod ar rent. Roedd fforwm adeiladwyr tai wedi cael ei ddatblygu i wella prentisiaethau a'r gadwyn gyflenwi leol. Roedd cyfle i ddatblygu mwy o sgiliau a BBaChau hefyd.
23. Dywedodd LW ei fod yn awyddus i rannu arfer gorau ac uwchraddio lle y bo'n bosibl. Felly, roedd yn barod i ystyried darparu arian cyfatebol o'r Tasglu ar gyfer y cynllun hwn.
24. Gofynnodd DR a oedd posibilrwydd i'r cynllun gael ei ehangu i safleoedd manwerthu. Dywedodd LW fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi codi hyn yn eu cyfarfod diweddar. Dywedodd AM fod RhCT wedi mynd i'r afael â hyn gyda chyllid Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a'i fod ar gael i bob awdurdod lleol.
25. Roedd KP o'r farn ein bod am annog mwy o gwmnïau adeiladu sy'n BBaChau yn y Cymoedd.

26. Byddai gweithdy yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf i drafod y ffordd rydym yn llunio'r prosiect hwn. **CAM GWEITHREDU – yr aelodau i drosglwyddo unrhyw sylwadau pellach i dîm y tasglu.**

**Eitem 5: Adborth ar y gweithdy entrepreneuriaeth**

27. Rhoddodd Andrew Diplock (AD) y wybodaeth ddiweddaraf i'r tasglu am ddatblygiadau allweddol sy'n ymwneud â'r ffrwd waith entrepreneuriaeth a chymorth busnes.
28. Roedd canolfan ar gyfer Arloesedd, Creadigrwydd ac Entrepreneuriaeth yng Nghymru wedi'i sefydlu ac roedd rheolwr cymunedol wedi'i benodi ym Mlaenau'r Cymoedd.
29. Roedd y Rhaglen Tyfu Busnesau wedi cynnal sesiwn sylw lwyddiannus yng Nghaerdydd a byddai un hefyd yn cael ei chynnal yn y Cymoedd gydag angylion buddsoddi (yn yr haf/hydref o bosibl). **CAM GWEITHREDU – Os hoffai aelodau gymryd rhan rhowch wybod i AD.**
30. Rhoddodd AD y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar yn dilyn y gweithdy entrepreneuriaeth ar 1 Ebrill.
31. Cafwyd cynrychiolaeth eang yn y gweithdy a fu'n myfyrio ar gynllun y tasglu ac yn archwilio beth arall y gellid ei wneud. Roedd dwy elfen yn bwydo i ganolfannau mwy sefydledig:
    - Cynnwys ACau etholaethol a gefnogir drwy gymhorthfeydd etholaethol er mwyn cefnogi a chyfeirio busnesau
    - Ystyried mannau cymunedol a darparu mwy o fannau anffurfiol, wedi'u hwyluso i fusnesau ddod ynghyd yn y gymuned.
32. Roedd LW yn bryderus bod lefelau'r busnesau a oedd yn cael eu datblygu yn y Cymoedd yn is nag yng Nghymru gyfan er eu bod wedi cael yr un cynnig. Roedd hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhywbeth yn wahanol yn y Cymoedd. Roedd y gweithdy hefyd wedi amlygu sefyllfa unigolion nad oeddent yn gallu fforddio cost barhaus safleoedd busnesau newydd â chymorth. Er mwyn goresgyn hyn, awgrymwyd y gellid defnyddio canolfan gymunedol Beddau i dreialu model allweddol is o gymorth busnes. Roedd LW yn awyddus i archwilio meysydd eraill lle gellid cefnogi dull tebyg.
33. Dywedodd CJ fod heriau tebyg yn wynebu'r unigolion hynny sy'n ceisio lansio mentrau gweithgynhyrchu. Roedd o'r farn bod bwlch yn y farchnad ar gyfer cymorth i fusnesau wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion a lle gallai cyw entrepreneuriaid logi cymorth technegol yn ogystal â chael cyngor mwy cyffredinol.
34. Tynnodd KP sylw at y cymorth sydd ar gael drwy golegau ond nododd fod yr hyfforddiant yn tueddu i fod wedi'i arwain gan gyflogwyr.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall**

35. Pwysleisiodd AM fod angen i'r gwaith ar gartrefi gwag gyd-fynd ag amseru'r penderfyniadau ynghylch treth gyngor. Roedd angen ystyried hyn ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod effaith y cynllun cystal â'r hyn a welwyd yn RhCT. Cafodd y grŵp wybod y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ar 10 Ebrill 2019 dan arweiniad Derek James (RhCT) ac y byddai'n cynnwys swyddogion tai, sgiliau a thasglu i ddatblygu'r gwaith.
36. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Mehefin, 10:00-12:00. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.